Estyn

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gymraeg Brynsierfel

Dyddiad yr arolygiad: 19/01/2026

# Crynodeb

Mae Ysgol Gymraeg Brynsierfel yn gymuned ddysgu ofalgar, hapus a chynhwysol. Mae staff yn adnabod anghenion ei disgyblion yn dda ac yn meithrin eu lles a'u dysgu'n llwyddiannus. Un o gryfderau'r ysgol yw'r cydweithio agos ag asiantaethau allanol i gefnogi disgyblion unigol gan addasu'r cwricwlwm i fodloni eu hanghenion. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hapus i fynychu'r ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno. Mae ganddynt agweddau cadarnhaol at eu dysgu ac mae eu hymddygiad yn gyson dda. Mae pwyllgorau cynrychiolaeth amrywiol yr ysgol yn cynnig cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymryd cyfrifoldebau a datblygu eu medrau arwain yn effeithiol.

Mae gweledigaeth gadarn yr arweinwyr a staff i feithrin dysgwyr annibynnol, hyderus a mentrus o fewn amgylchedd ddysgu gartrefol, yn cael ei rhannu'n effeithiol gyda'r disgyblion a chymuned ehangach yr ysgol. Mae arweinwyr yn arddel prosesau hunanwerthuso cadarn, sy'n galluogi gwelliannau yn y ddarpariaeth er lles a chynnydd disgyblion. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau dros amser. Er hyn, nid yw athrawon yn darparu cyfleoedd digon bwriadus a rheolaidd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd yn adeiladol ar draws y meysydd dysgu.

Mae staff yn darparu amgylchedd ddysgu yn bwrpasol i ysgogi disgyblion, gan gynnig cefnogaeth werthfawr iddynt. Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd rheolaidd a buddiol i ddisgyblion weithio'n annibynnol ar eu tasgau. Maent yn cynnig adborth llafar amserol a chymorth defnyddiol i'r disgyblion wrth ymateb i'w gwaith. Er hyn, nid oes digon o gyfleoedd cyson i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol am y ffordd maent am gyflawni a chyflwyno eu dysgu.

Mae gan y pennaeth a'r staff berthynas gadarnhaol a threfniadau cyfathrebu effeithiol â rhieni. O ganlyniad, mae rhieni'n hyderus i godi unrhyw fater all effeithio ar les a dysgu eu plant.

# Argymhellion a beth sy’n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Ymestyn cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion wneud penderfyniadau am eu dysgu yn gynyddol annibynnol

A2 Ehangu’r cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o’r ysgol, dilynwch y ddolen hon i’r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae’r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu’n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/03/2026